Adran Gwaith a Phensiynau

# Taliad Costau Angladd i blentyn

**Ffyrdd eraill o gyfathrebu â ni**

Os oes angen braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, Hawdd i'w Ddarllen, sain neu rywbeth arall arnoch, cysylltwch â ni ar 0800 169 0240.

Os ydych yn defnyddio Relay UK, deialwch 18001 ac yna ein rhif ffôn.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.

**SF200 Child Notes W** 01/26

# Cynnwys


**A allaf gael help** ........ 3

**Pwy all hawlio** ........ 4

**Yr help y gallwch ei gael** ........ 5

**Cynlluniau angladd rhagdaledig** ........ 6

**Ynglŷn ag unrhyw arian y gallech ei ddefnyddio ar gyfer yr angladd** ........ 6

**Ynglŷn ag unrhyw arian yr ydych eisoes wedi'i dalu i'r trefnydd angladdau** ........ 7

**Sut byddwn yn eich talu** ........ 7

**Os byddwn yn talu gormod o arian i chi** ........ 7

**Talu Taliad Costau Angladd yn ôl** ........ 8

**Cymorth a chyngor** ........ 8


## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I gael gwybod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Equality' yn **www.gov.uk**

Cyn i chi lenwi'r ffurflen gais, cymerwch ychydig funudau i ddarllen y nodiadau hyn. Maent yn cynnwys gwybodaeth bwysig ac yn helpu i egluro rhai o'r cwestiynau rydym yn eu gofyn i chi a pham rydym yn eu gofyn.

Os ydych yn byw yn yr Alban efallai y gallwch hawlio Taliad Cymorth Angladd. Ewch i **www.mygov.scot** am ragor o wybodaeth.

Canllaw cyffredinol yn unig ar gyfer hawlio Taliad Costau Angladd yw'r wybodaeth yn y nodiadau hyn. Mae'n bosibl bod rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu wedi newid dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

# A allaf gael help?

Mae'r nodiadau hyn yn ymwneud â Chostau Angladd i blentyn.

Mae plentyn yn golygu rhywun o dan 16 oed, neu rywun 16 i 19 oed lle maen nhw mewn:

- addysg llawn amser
- addysg nad yw'n addysg uwch, neu
- hyfforddiant.

Ar gyfer pob amgylchiad arall defnyddiwch y ffurflen Taliad Costau Angladd i oedolyn.

Gallwch gael help tuag at gost angladd os ydych yn bodloni'r amodau canlynol.

Rydych chi neu'ch partner yn cael un o'r budd-daliadau cymwys canlynol ac yn byw yng Nghymru neu Loegr:

- Credyd Cynhwysol
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- yr elfen anabledd neu anabledd difrifol o Gredyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant
- benthyciad Cymorth ar gyfer Llog Morgais.

Gallwch hefyd gwneud cais os ydych chi neu'ch partner yn aros i glywed am gais am un o'r budd-daliadau neu daliadau hyn.

Mae partner yn golygu:

- person rydych yn byw gyda hwy sy'n ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi, neu
- person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn gwpl priod.

Gwnaethoch chi neu'ch partner drefnu'r angladd yn y Deyrnas Unedig (DU) a roedd prif gartref y plentyn a fu farw yn y Deyrnas Unedig pan fu farw. Mae'r Deyrnas Unedig (DU) yn golygu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gwnaethoch chi neu'ch partner drefnu'r angladd ac rydych wedi gwneud cais o fewn 6 mis i ddyddiad yr angladd.

Chi oedd yn gyfrifol am y plentyn a fu farw ac nid oes rhiant dibreswyl.

Mewn achos o fabi marw-anedig, a aned yn 24 wythnos neu'n hwyrach, chi oedd y rhiant neu'n partner i'r rhiant.

Efallai gallwch hefyd gael help tuag at gost angladd:
- os gwnaethoch chi neu'ch partner drefnu'r angladd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, neu
- lle nad oes rhiant dibreswyl.

Gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yw Awstria, Bwlgaria, Croatia, Cyprus, Denmarc, Estonia, Ffrainc, Groeg, Gwlad Belg, Gwlad yr Iâ, Gwlad Pŵyl, Hwngari, Iwerddon, Latfia, Lichtenstein, Lithiwania, Lwcsembwrg, Malta, Norwy, Portiwgal, Rwmania, Sbaen, Slofenia, Sweden, y Ffindir, Slofacia, y Weriniaeth Tsiec, yr Almaen, yr Eidal a'r Iseldiroedd a'r DU.

Os yw'r naill un neu'r llall yn berthnasol i chi, byddwch angen rhoi rhagor o wybodaeth er mwyn ein helpu i benderfynu os gallwn eich helpu.

# Pwy all wneud cais?

Gallwch wneud cais am Daliad Cost Angladd os:
- rydych yn byw yng Nghymru neu Loegr
- chi oedd rhiant, neu'n bartner i riant, y plentyn a fu farw
- roeddech yn berthynas agos neu ffrind agos i deulu'r plentyn a fu farw ac mae'n rhesymol i chi gymryd cyfrifoldeb ar gyfer costau'r angladd.

Os oes perthynas agos arall i'r plentyn a fu farw sydd ddim yn cael budd-dal cymwys, efallai y bydd angen i ni ystyried eu sefyllfa.

Ni allwch gael taliad fel perthynas agos neu ffrind agos i deulu'r plentyn a fu farw os:
- oes rhiant, neu bartner y rhiant, i'r plentyn a fu farw sydd ddim yn cael budd-dal cymwys, a
- bod eu perthynas â'r plentyn a fu farw heb ei chwalu. Oni bai fod y person yna, ar ddyddiad y farwolaeth:
  - o dan 18 oed
  - yn berson ifanc sy'n gymwys ar gyfer dibenion budd-dal plant
  - yn 18 oed neu drosodd ac mewn addysg llawn amser
  - yn derbyn cefnogaeth mewnfudo gan y Gwasanaeth Cynnal Lloches Genedlaethol (NASS)
  - yn aelod llawn o urdd grefyddol
  - yn y carchar neu ysbyty yn syth ar ôl cyfnod ble dyfarnir fudd-dal cymwys i'r person hwnnw neu eu partner

- yn berson sy'n byw mewn sefydliad gofal, ac mae eu treuliau yn cael eu bodloni'n llawn neu'n rhannol gan yr Awdurdod neu Lywodraeth leol
- fel arfer yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

## Yr help y gallwch ei gael

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio trefnydd angladdau i drefnu angladd. Ond gallwch drefnu'r angladd eich hunain. Os ydych yn trefnu'r angladd eich hunain, bydd angen i chi roi tystiolaeth o'r arian rydych wedi'i wario.

Os ydych yn defnyddio trefnydd angladdau, dywedwch wrthynt y byddwch yn gwneud cais am Daliad Costau Angladd.

Gall Taliad Costau Angladd ond bodloni costau penodol a byddwch yn gyfrifol am unrhyw wahaniaeth rhwng swm y Taliad Costau Angladd a chost derfynol yr angladd. Er enghraifft, os oes dewis o dir claddu neu amlosgfeydd yn yr ardal leol, mae rheolau'r Gronfa Gymdeithasol ond yn ein galluogi i dalu am yr opsiwn rhataf. Os byddwch yn dewis angladd sy'n ddrutach efallai na fyddwn yn gallu talu'r gost lawn ac efallai y byddwch yn gyfrifol am y gwahaniaeth.

Gall y Taliad Costau Angladd gynnwys:

- cost o ail-agor bedd a chostau claddu, neu
- cost o agor bedd newydd a chostau claddu, yn cynnwys unrhyw ffi am hawl unigryw i gladdu ac mae hyn yn cynnwys bedd adferedig. (Mae hawl unigryw i gladdu ar gyfer nifer penodol o flynyddoedd. Mae'r cyfnod hwn yn cael ei benderfynu gan yr awdurdod lleol neu berchennog y tir lle bydd y gladdedigaeth yn digwydd), neu
- yn achos amlosgiad
  - cost yr amlosgi
  - cost symud peiriant rheoli curiad y galon neu ddyfais feddygol arall y mae'n rhaid ei symud cyn yr amlosgiad
- cael unrhyw gyfeiriadau meddygol, adroddiad neu ddogfennaeth arall sydd eu hangen mewn perthynas â gwaredu corff y person a fu farw p'un ai trwy gladdu, amlosgi neu arall
- cost unrhyw ddogfennau sy'n angenrheidiol i ryddhau arian, cynilion ac eiddo'r person a fu farw
- pan fydd angen symud y corff dros 50 milltir yn y Deyrnas Unedig i adeilad y trefnydd angladdau neu dŷ hebrwng, cost resymol y rhan honno o'r siwrnai sydd dros 50 milltir
- pan fydd y daith i'r angladd o anghenraid dros 50 milltir, cost y rhan honno o'r siwrnai sydd dros 50 milltir ar gyfer cludo'r arch a'r archgludwyr ac un cerbyd ychwanegol ar gyfer y rhan hynny o'r siwrnai sydd dors 50 milltir
- yn amodol ar rai cyfyngiadau penodol, y gost am siwrnai ddwyffordd angenrheidiol i chi naill ai
  - i drefnu'r angladd, neu
  - i fynd i'r angladd

- hyd at £1000 am unrhyw dreuliau angladdol eraill. Mae'r swm hwn yn cynnwys pob cost arall mewn perthynas â'r angladd. Gall hyn gynnwys yr arch, ceir a ffioedd y trefnydd angladdau.

Os ydych wedi defnyddio trefnydd angladdau ac wedi talu am rywbeth nad yw'n cael ei gynnwys yn bil y trefnydd angladdau, fel blodau, efallai y byddwn yn gallu talu am hyn. Gallwn ond talu am hyn os yw costau'r trefnydd angladdau am yr angladd yn llai na £1000.

## Cynlluniau talu am angladd ymlaen llaw

Rydym angen gwybod os oedd gan y person fu farw:

- cynllun talu am angladd ymlaen llaw. Mae cynllun talu am angladd ymlaen llaw yn drefniant a wnaethpwyd cyn marwolaeth er mwyn talu am rywfaint neu holl gostau'r angladd
- bond angladd
- unrhyw drefniant rhagdaledig tebyg.

Ni allwn helpu ag unrhyw rai o'r eitemau na'r gwasanaethau a restrir uchod sydd eisoes wedi eu cynnwys mewn cynllun talu ymlaen llaw. Ond efallai y gallwn dalu ar gyfer:

- cost unrhyw eitemau a restrir uchod nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cynllun
- cost rannol unrhyw eitemau a restrir uchod sydd wedi eu cynnwys yn rhannol yn unig yn y cynllun
- hyd at £120 am unrhyw gostau angladdol eraill.

Er mwyn i ni allu penderfynu ynglŷn â'ch cais, mae angen i ni wybod beth mae'r cynllun yn ei ddarparu.

Anfonwch atom:

- copi o'r cynllun gwreiddiol
- unrhyw ddogfennau rydych wedi eu cael gan ddarparwr y cynllun yn dangos yr eitemau a'r gwasanaethau y mae'r cynllun yn eu darparu ar gyfer yr angladd hwn.

Os oedd cynllun talu am angladd ymlaen llaw heb ei dalu'n llawn cyn i'r person farw, bydd angen i ni wybod faint sydd wedi ei ad-dalu neu a gaiff ei ad-dalu gan ddarparwr y cynllun. Anfonwch atom:

- copi o'r cynllun gwreiddiol
- unrhyw ddogfennau rydych chi wedi eu cael gan ddarparwr y cynllun yn dangos y swm sydd i'w ad-dalu.

## Unrhyw arian efallai y gallech ei ddefnyddio ar gyfer yr angladd

Wrth gyfrifo faint o gymorth y gallwch ei gael, byddwn yn edrych hefyd ar faint o arian sydd ar gael i'ch helpu â chost yr angladd. Byddwn yn

ystyried yr arian hwn pan fyddwn yn cyfrifo faint y gallwn ei dalu i chi. Gallai gynnwys, er enghraifft:

- arian o ystâd y person a fu farw
- arian mewn cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu Swyddfa Bost y person a fu farw. Efallai y gallech ofyn i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu dalu bil yr angladd os oes digon o arian yn y cyfrif
- arian o bolisïau yswiriant ar ôl i'r person farw
- arian o gynllun pensiwn galwedigaethol ar ôl i'r person farw
- arian o glwb claddu neu rywbeth tebyg
- unrhyw gynilion neu arian parod gan y person a fu farw.

Ni fyddwn yn ystyried unrhyw ôl-ddyledion budd-dal neu unrhyw gyfandaliad Taliad Profedigaeth. Hefyd ni fyddwn yn ystyried unrhyw gyfraniadau gan elusennau, ffrindiau neu berthnasau tuag at gost yr angladd. Mae hwn er mwyn cydnabod gall cyfanswm y gost am angladd fod yn fwy na gwerth y Taliad Costau Angladd.

## Arian rydych eisoes wedi'i dalu i'r trefnydd angladdau

Bydd angen i chi ddweud wrthym os ydych wedi talu rhyw faint o fil y trefnydd angladdau. Dywedwch wrthym faint rydych wedi'i dalu, pwy dalodd y bil, o ble y daeth yr arian a phryd cafodd ei dalu.

## Sut y byddwn yn eich talu

Os gallwn dalu Taliad Costau Angladd i chi ac rydych wedi defnyddio trefnydd angladdau ond nid yw bil y trefnydd angladdau eisoes wedi ei dalu, byddwn fel arfer yn talu'n uniongyrchol i gyfrif banc y trefnydd angladdau.

Anfonwch y ffurflen dull o dalu'r trefnydd angladdau i ni os ydych wedi cael un.

Os yw bil y trefnydd angladdau eisoes wedi ei dalu'n llawn, neu os nad ydych wedi defnyddio trefnydd angladdau, byddwn yn gwneud y taliad i chi, fel arfer yn uniongyrchol i gyfrif

Bydd llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn gadael i chi gasglu eich arian yn y swyddfa bost. Byddwn yn dweud wrthych pryd y bydd eich taliad yn cael ei wneud ac am faint y bydd.

Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni. Gall y cyfriflenni ddangos eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) wrth ymyl unrhyw daliadau rydym wedi'u gwneud.

Os credwch fod eich taliad yn anghywir, dywedwch wrth y swyddfa sy'n eich talu ar unwaith.

## Os byddwn yn talu gormod o arian i chi

Os byddwn yn talu gormod o arian i chi mae gennym yr hawl i gymryd yn ôl unrhyw arian a dalwn nad oes gennych hawl iddo. Gall hyn fod oherwydd y ffordd y mae'r system dalu'n gweithio.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i ni sy'n golygu bod gennych hawl i lai o arian. Weithiau efallai na fyddwn yn gallu newid y swm yr ydym eisoes wedi ei dalu i chi. Mae hyn yn golygu y byddwn wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl iddo.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn i ni gymryd unrhyw arian yn ôl.

## Ad-dalu Taliad Costau Angladd

Bydd yn rhaid ad-dalu Taliad Costau Angladd o ystâd y person a fu farw, os yw'n bosibl. Mae'r gyfraith yn dweud ei bod yn rhaid talu costau angladd cyn talu unrhyw beth arall o'r ystâd, hyd yn oed os yw'n golygu na all biliau eraill gael eu talu a bod rhaid iddynt gael eu diddymu.

Mae ystâd, yn golygu:

- unrhyw asedion fel eiddo, tir, stociau a chyfranddaliadau, cynilion ac unrhyw arian neu arian parod arall sy'n eiddo i'r person a fu farw neu sy'n ddyledus i'r person a fu farw
- unrhyw arian sy'n dod i'r ystâd ar ôl i'r person farw.

Byddwn yn ysgrifennu atoch chi neu'r person sy'n gofalu am faterion ariannol y person a fu farw. Byddwn yn gofyn a gadawodd y person a fu farw unrhyw ystâd y gall y Taliad Costau Angladd cael ei ad-dalu ohonno.

Mae hyn oherwydd nad yw arian bob amser ar gael i dalu am yr angladd, ond efallai y bydd ar gael yn ddiweddarach. Er enghraifft, efallai y caiff arian ei ryddhau yn ddiweddarach neu efallai y byddwch yn dod o hyd i bolisi yswiriant nad oeddech yn gwybod amdano.

Nid ydym yn cyfrif y cartref a feddiannir gan bartner y person a fu farw, neu eiddo personol y gadawyd i berthnasau.

## Cymorth a chyngor

Os hoffech siarad â rhywun am Daliadau Costau Angladd cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Gallwch siarad â rhywun yn eich canolfan gwaith agosaf, neu gartref os byddai'n well gennych.

I gael gwybod mwy, gallwch ymweld â **www.gov.uk/browse/benefits**

I ddod o hyd i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith agosaf ewch i **www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith** ac yna dewiswch 'chwilio am swyddfa leol'.

Gallwch hefyd gael rhagor o wybodaeth gan **www.gov.uk**

Os ydych yn byw yn yr Alban efallai y gallwch hawlio Taliad Cymorth Angladd. Ewch i **www.mygov.scot** am ragor o wybodaeth.

| |
|---|
| Cadwch y nodiadau hyn mewn lle diogel. Nid oes angen eu dychwelyd gyda'r ffurflen. |